

Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Tachwedd 2018

Annwyl Gadeirydd

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS AR LYWODRAETH
CYMRU YN CAFFAEL A PHERCHNOGI MAES AWYR CAERDYDD

Yn fy llythyr dyddiedig 2 Chwefror 2018 ynghylch yr adroddiad uchod, cadarnhawyd y byddai diweddariad ar y gwaith o weithredu argymhellion 2, 7, 9 a 10 yn cael ei ddarparu ym mis Tachwedd. Rwy'n falch o atodi'r diweddariad hwnnw ar yr argymhellion hyn, sydd bellach yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi'u cyflawni.

Yn ogystal â hyn, mewn diweddariad cynharach i'r Pwyllgor, ymrwymwyd y byddai WGC Holdco yn defnyddio'r gwersi perthnasol a ddysgwyd mewn perthynas â chyfansoddiad byrddau CIAL a WGC Holdco. Mae'r diweddariad atodedig, felly, hefyd yn cynnwys manylion y newidiadau perthnasol a wnaed mewn perthynas ag argymhellion 3, 4 a 5.

Yn olaf, roeddwn hefyd am achub ar y cyfle hwn i roi diweddariad cryno ichi ar y Gwasanaeth Awyr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Caerdydd ac Ynys Môn. Yn dilyn proses gaffael gystadleuol yn ystod yr haf, rydym bellach yng nghyfnodau olaf y broses honno. Unwaith iddi ddod i ben, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn cyhoeddi datganiad am y darparwr hirdymor, a bydd copi ohono yn cael ei anfon atoch.

Yn gywir

ANDREW SLADE

Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Parc Cathays • Cathays Park
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162

E-bost/[E-mail: andrew.slade@gov.wales](mailto:andrew.slade@gov.wales) <<mailto:andrew.slade@gov.wales>>

DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS – Llywodraeth Cymru yn Caffael a Pherchnogi Maes Awyr Caerdydd

21 Tachwedd 2018

Llywodraeth Cymru yn Caffael a Pherchnogi Maes Awyr Caerdydd

Dyddiad y Diweddariad: Tachwedd 2018

Cyfarwyddwr Cyfrifol: Simon Jones

2

We recommend that the Welsh Government consider engaging with Transport Scotland to understand the different approach they have taken to membership of their holding company, how conflicts of interest are managed within the Scottish model and to consider the merits of such an approach alongside the work currently being undertaken to consider the composition of the CIAL and Holdco boards. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig) **(Tudalen 35)**

Yn ein diweddariad diwethaf, ymrwymwyd y bydd WGC Holdco yn defnyddio'r gwersi perthnasol a ddysgwyd mewn perthynas â chyfansoddiad byrddau CIAL a WGC Holdco. Yn dilyn newidiadau a wnaed i fyrddau WGC HoldCo a CIAL, rydym bellach yn ystyried bod y byrddau yn gweithredu ar wahân lle bo hynny'n briodol er mwyn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau. Ystyriwn fod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni ac mae'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ef yn mynd rhagddo yn ôl yr arfer.

3

We recommend that Holdco encourage the CIAL Board to consider expanding its Membership to include wider aviation and/or airline experience. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig) **(Tudalen 35)**

Mae bwrdd CIAL wedi penodi Terry Morgan a Fiona Gunn yn Gyfarwyddwyr Anweithredol. Mae gan Terry Morgan brofiad helaeth yn y maes hedfanaeth ac mae gan Fiona Gunn brofiad helaeth o farchnata a manwerthu.

Mae modd gweld bywgraffiadau pob aelod o fwrdd CIAL drwy'r ddolen a ganlyn. <https://www.cardiff-airport.com/our-board-of-directors-2>

Ystyriwn fod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni ac mae'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ef yn mynd rhagddo yn ôl yr arfer.

4	<p>With regard to the composition of the Holdco Board we recommend that the Welsh Government give consideration to extending its membership to include a civil servant from outside the Directorate that has responsibility for economy, skills and natural resources to minimise the potential for conflicts of interest to arise. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig) (Tudalen 35)</p>
<p>Mae bwrdd WGC Holdco wedi ystyried ei aelodaeth a'r angen i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng sgiliau, y meysydd cyfrifoldeb presennol ac annibyniaeth, a'r angen i barhau i weithio mewn ffordd effeithlon. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried cael uwch was sifil ychwanegol o'r tu allan i'r Gyfarwyddiaeth ar fwrdd WGC Holdco. Penderfynwyd y byddai penodi Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol allanol yn fwy buddiol ac yn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau.</p> <p>Byddwn yn rhoi cyngor i'r Pwyllgor ar unrhyw gamau pellach i ymestyn neu newid aelodaeth bwrdd WGC Holdco.</p> <p>Ystyriwn fod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni ac mae'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ef yn mynd rhagddo yn ôl yr arfer.</p>	
5	<p>We endorse the recommendation of the Auditor General's report and previously that of the Welsh Government's Internal Audit Services that Holdco should appoint a board member from outside of Welsh Government with appropriate business experience. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig) (Tudalen 35)</p>
<p>Ar ôl proses Penodiadau Cyhoeddus ffurfiol, rydym yn falch bod Stuart Castledine bellach yn Gyfarwyddwr Anweithredol annibynnol ar fwrdd WGC Holdco.</p> <p>Byddwn yn rhoi cyngor i'r Pwyllgor os bydd unrhyw newidiadau pellach yn cael eu gwneud i fwrdd WGC Holdco.</p> <p>Ystyriwn fod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni ac mae'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ef yn mynd rhagddo yn ôl yr arfer.</p>	
7	<p>The Committee recommends an update is provided by the Welsh Government following completion of the financial health review and whether this has resulted in any change in terms of the commercial loans and that the Committee is kept updated on any additional loan finance that is agreed. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig) (Tudalen 46)</p>

Nid yw Maes Awyr Caerdydd wedi gofyn am unrhyw fenthyciadau pellach, ond os bydd hynny'n newid, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor. Ystyriwn fod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni ac mae'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ef yn mynd rhagddo yn ôl yr arfer.

9

Given our observations regarding signage with regard to the Airport Express bus service the Committee recommends that CIAL work with the Welsh Government to ensure signage is improved with specific consideration to making more user friendly for foreign travellers.
(Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig) (Tudalen 52)

Rydym wedi gweithio'n agos gyda thîm CIAL i wella'r arwyddion i ddenu mwy o sylw at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys gwasanaeth bws T9, gwasanaethau bysiau eraill, a gwasanaethau rheilffyrdd a thacsis.

Er ystyrir bod y gwelliannau hyn yn foddhaol ac na ystyrir bod angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd, byddwn yn parhau i adolygu'r argymhelliad hwn.

Ystyriwn fod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni ac mae'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ef yn mynd rhagddo yn ôl yr arfer.

10

With regards to discussions between Cardiff Airport and Arriva Trains Wales to improve rail links to the airport, we recommend that the Welsh Government work with both parties to encourage dialogue to improve the rail links to the airport. (Dyfyniad o adroddiad sydd ar gael yn Saesneg yn unig) (Tudalen 52)

Yn dilyn y broses gaffael ar gyfer Masnachfaint Rheilffyrdd newydd Cymru a'r Gororau, Trafnidiaeth Cymru, mewn perthynas â KeolisAmey, yw'r darparwr newydd.

Ystyriwyd llawer o opsiynau i gynnwys ymhellach Faes Awyr Caerdydd yn rhwydwaith y rheilffyrdd. Mae Trafnidiaeth Cymru yn datblygu perthynas gyda TrawsCymru i edrych ar y bws maes awyr o Gaerdydd ac rydym fodlon iawn â'r cynlluniau sydd ganddo ar gyfer Metro De Cymru a fydd yn gwella'r llwybr presennol i'r maes awyr.

Bydd Bro Morgannwg, gan gynnwys y Rhws (yr orsaf drenau agosaf at Faes Awyr Caerdydd), yn cael ei chynnwys yng ngwasanaeth Metro De Cymru. Erbyn 2023, bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyflwyno trenau tri modd a fydd yn rhedeg ar bŵer trydan, batri a diesel ac yn sicrhau bod mwy o bobl yn gallu teithio ar y rhwydwaith. I wella'r cerbydau presennol, bydd y trenau hyn yn cynnig gwasanaeth heb ris rhwng y trê'n a'r plattform, socedi pŵer, gwybodaeth electronig i deithwyr, aerdymheru a mwy o le ar gyfer beiciau.

Hefyd, bydd rhagor o drenau yn cael eu hychwanegu o ganol 2019, wrth i Trafnidiaeth Cymru ddod â'r hen drenau 'Pacer' i ben. Bydd y trenau dros dro hyn yn cael eu hadnewyddu'n llwyr. Byddant yn cael eu gweithredu tan 2022 ac yn gallu dal mwy o bobl.

Ym mis Rhagfyr 2023, bydd Trafnidiaeth Cymru yn cynnig dwywaith yn fwy o wasanaethau yn ystod yr wythnos waith rhwng y Rhws a Chaerdydd Canolog gan gynnig dau drê'n pob awr. Bydd y gwasanaethau a gynigir ar ddydd Sul yn dyblu i un trê'n bob awr ym mis Rhagfyr 2024.

Ystyriwn fod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni, ond byddwn yn darparu diweddariad pellach i'r Pwyllgor yn 2019 ar ôl dod â'r hen drenau 'Pacer' i ben, a chyflwyno'r cerbydau sydd wedi'u hadnewyddu.

